

Taflen Wybodaeth Glasu / Glasu Information Sheet – Rhif 3 / No. 3 PLANNU A STANCIO / PLANTING AND STAKING

Dewis y lle gorau i blannu

Pan fyddwch yn penderfynu plannu coeden ffrwythau, mae'n debyg y bydd yn aros yn y lle hwnnw am flynyddoedd i ddod. Mae coed afalau neu eirin yn gallu dwyn ffrwyth am o leiaf 50 o flynyddoedd neu hyd yn oed ddwywaith hynny. Fe allai goeden bêrs wedi'i himpio ar wreiddgyff eginblanhigyn gellyg, sef y mwyaf grymus o holl wreiddgyffion gellyg, ddwyn ffrwyth am 200 o flynyddoedd. Felly dylech gymryd gofal mawr wrth ddewis safle i blannu.

Dyma'r ffactorau i'w hystyried:

1. Mae afalau, gellyg ac eirin i gyd yn wydn iawn, a phrin iawn y caiff eu boncyffion a'u canghennau eu difrodi gan dywydd oer. Er hyn, ni fydd coed ffrwythau'n ffynnu mewn tir dyfrlawn. Mae angen ocsigen ar y gwreiddiau os ydynt i lwyddo, ac ychydig iawn o ocsigen sydd mewn tir gwlyb.
2. Mae blodau ffrwythau yn eiddil iawn ac yn sensitif i'r tywydd. Gall rhew achosi difrod hawdd i'w blodau trwy rwygo'r celloedd. Bydd tywydd oer a gwyntog yn rhwystro'r pryfed rhag peillio. Pan fydd y peilliad yn ddrwg, ychydig iawn o ffrwythau fydd yn datblygu.

Dylech gadw hyn mewn cof wrth ddewis safle. Dyma'r amodau delfrydol ar gyfer plannu perllan:

1. Tir ar lethr ysgafn sy' wynebu'r de. Bydd y math hwn o safle yn cael y gorau o belydrau'r haul. Bydd tir llethrog yn llai tebygol o gael problemau draeniad.
2. Gydag atalwyr gwynt, gwrychoedd neu adeiladau i'w hamddiffyn rhag gwyntoedd. Bydd y rhain yn helpu i leddfwr rhag effaith oeri'r gwynt, gan wneud y safle'r gynhesach.
3. Gyda phridd ac isbridd o ddyfnder rhesymol i ganiatáu i'r system wreiddiau dreiddio. Bydd system wreiddiau gadarn yn rhwystro'r coed rhag syrthio neu ddod yn rhydd.
4. Gyda draeniad awyr da trwy'r safle fel bod yr awyr oer yn gallu llifo i lawr ac i ffwrdd o'r berllan. Mae hyn yn lleihau'r perygl o'r blodau'n cael eu difrodi gan rew.

Pennu gwerth eich pridd



Strategaeth dda ar gyfer ymchwilio i gyflwr pridd safle plannu yw palu 'pit proffil pridd'. Twll yw hwn sy'n debyg i'r tyllau y byddech yn eu palu ar gyfer plannu coed, tua 1 metr sgwâr a 75 cms o ddyfnder. Dylech adael y twll heb ei lenwi am o leiaf wythnos. Os bydd y twll yn llenwi â dŵr a'i fod yn parhau felly drwy'r wythnos, yna mwy na thebyg bod y safle'n rhy wlyb i blannu coed ffrwythau.

Os yw'r safle ar lethr a bod y twll yn llawn dŵr, mae techneg ar gael i ddatrys y broblem. Wrth gloddio'ch tyllau plannu, dylech agor yr ymyl i lawr y llethr gyda ffos gul tua 10 – 15 cms o led. Bydd hyn yn gadael i'r dŵr lifo allan o'r twll ac i lawr y llethr hyd yn oed ar ôl ei lenwi â phridd.

Yn ogystal â rhoi rhyw syniad o'r symudiad dŵr yn y pridd, mae'r pit proffil pridd hefyd yn galluogi i chi weld pa fath o bridd sydd yno. Nid yw pridd tywodlyd yn dal y maeth yn dda iawn. Bydd coed sydd o wreiddgyffion grymus iawn yn help i oresgyn y broblem hon. Mae pridd clai yn bridd ffrwythlon iawn. Os yw'r draeniad yn dda, bydd coed yn tyfu'n dda iawn ar y math hwn o bridd. Mae gan y pridd delfrydol gymysgedd o ronynnau tywod a chlai ac fe'i gelwir yn bridd lôm.

(Yn union wedi palu pit proffil pridd, peth call fyddai gosod gorchudd cryf drosto fel nad oes modd i bobl nac anifeiliaid syrthio iddo).

**Taflen Wybodaeth Glasu / Glasu Information Sheet – Rhif 3 / No. 3
PLANNU A STANCIO / PLANTING AND STAKING**



Cyn plannu

Yr adeg gorau i blannu coed o wreiddiau noeth a choed mewn cynwysyddion yw o ddechrau mis Rhagfyr tan ddiwedd mis Mawrth. Yr adeg gorau yw ym mis Rhagfyr am fod y pridd yn debyg o fod yn gynnes gan wres yr hydref. Bydd y gwreiddiau'n atgyweirio ychydig os yw'r pridd yn ddigon cynnes. Mae hyn yn werthfawr iawn os yw'r coed i sefydlu'n llwyddiannus, gan ei fod yn anochel y ceir peth difrod i'r gwreiddiau wrth blannu coed. Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, bydd y pridd yn oeri gan arafu'r broses o sefydlu'r gwreiddiau. Caiff coed mewn cynwysyddion eu marchnata fel rhai y gellir eu plannu drwy gydol y flwyddyn. Serch hynny, y cyfnod gorau i'w plannu yw'r un a nodir uchod..

Bydd perygl i goed â gwreiddiau noeth sychu os nad ydynt dan orchudd. Ar ddiwrnod sych a gwyntog, gellir difrodi gwreiddiau noeth mewn munudau, felly rhaid eu cadw dan orchudd ac yn wlyb drwy'r amser os ydynt allan o'r tir. Os byddwch yn derbyn coed â gwreiddiau noeth ac nad ydych yn barod i'w plannu ar unwaith, dylech eu plannu dros dro er mwyn cadw'r gwreiddiau'n llraith.

Y ffordd orau o sicrhau y caiff coed eu trawsblannu heb ormod o ddifrod yw paratoi'r tyllau plannu o flaen llaw. Yn draddodiadol, plannwyd perllannau mewn rhesi gyda'r un faint o le rhwng y coed a'r rhesi. Byddai hyn yn ei gwneud yn haws wrth dynnu peiriannau trin gyda cheffylau ac i roi cymaint o olau a lle i dyfu â phosibl. Bydd cynlluniau plannu sydd â chymorth grant yn debygol o fynnu i chi ddilyn cynlluniau plannu traddodiadol.

Mae'r lle rhwng y coed yn dibynnu ar faint y coed aeddfed yn y pen draw. Dylid plannu coed ar wreiddgyffion grymus (e.e. afalau ar MM111 ac M25, gellyg ar Eginblanhigion Gellyg ac eirin ar Brompton) o leiaf 10 medr o'i gilydd. Gellir plannu coed hanner grymus 5 medr o'i gilydd. Marciwch y safle gan ddefnyddio llinellau o linyr a phegiau.

Cloddio'r twll plannu

Rhaid i'r twll fod yn ddigon mawr i system wreiddiau'r coed heb eu gwasgu. Peidiwch â thocio'r gwreiddiau er mwyn ffitio'r twll. Mae'n well defnyddio arfau llaw wrth gloddio tyllau coed ond mae peiriannau cloddio'n dderbyniol ar gynllun mawr. Peidiwch â defnyddio tlyllydd tyllau pyst i gloddio tyllau coed, gan fod perygl i ymylon y twll gael eu cywasgu gan ei wneud yn anodd i'r gwreiddiau dreiddio trwy'r ymylon.

Taflen Wybodaeth Glasu / Glasu Information Sheet – Rhif 3 / No. 3 PLANNU A STANCIO / PLANTING AND STAKING


Os ydych chi'n cloddio ar laswelltir, sgimiwch y dywarchen oddi ar ardal o 1 medr o gwmpas y peg marcio. Rhowch y tywarch i un ochr i'r twll. Nesaf, cloddiwch y pridd allan a'i osod ar ochr arall y twll. Cloddiwch yn ddigon dwfn fel bod y coed yn gallu eistedd yr un uchder ag yr oeddynt cyn prynu. Fel arfer, mae hyn yn amlwg gan fod coesyn isaf y goeden yn newid lliw. Mae'r man gyda'r lliw tywyllach yn golygu bod hwnnw wedi bod o dan y ddaear. Pan fyddwch wedi cloddio digon o bridd, rhyddhewch waelod y twll gyda fforch gardd. Bydd hyn yn helpu'r gwreiddiau i dreiddio.

Stancio

Mae angen stancio pob coeden ffrwythau sydd newydd eu plannu, fel bod y system wreiddiau'n gallu sefydlu ac angori'r goeden. Mae stanciau crwn, wedi'u pilio, o bren medal sydd wedi'u trin, yn ddelfrydol. Dylai'r stanc fod yn ddigon hir i gyrraedd 50 cm yn is na gwaelod y pit plannu, ac yn ddigon uchel i gyrraedd ychydig o dan ganghennau cyntaf pen y goeden. Er enghraifft, bydd angen stanc sy'n 2.5 - 3 medr o hyd ar goeden gyffredin gyda choesyn sy'n 2 medr. Dylid gosod y stanc ar ochr y goeden sy'n wynebu'r gwynt, fel bydd y goeden yn cael ei chwythu oddi wrth y stanc yn hytrach nag yn ei erbyn. Mae hyn yn osgoi difrodi'r goeden wrth iddi rwbio yn erbyn y stanc.

Plannu

Peidiwch â phlannu os yw'r tir wedi rhewi, neu os oes rhew neu eira. Yn ddelfrydol dewiswch ddiwrnod heb wynt. Ewch â'r coed i'r safle plannu gan gadw'r gwreiddiau dan orchudd drwy'r amser. Bydd bagiau plastic neu sachau gwlyb yn ddelfrydol i'r diben hwn. Tynnwch y goeden o'i bag a'i gosod yn y twll i weld os yw'n ffitio'n gyfforddus. Daliwch stanc yn erbyn y goeden i gael y safle gorau i blannu'r ddau. Yna rhowch y goeden nôl yn ei bag a tharo'r stanc i mewn i'r ddaear tan ei fod yn gadarn. 'Drivall' yw'r offer gorau i wneud hyn sef tiwb silindrog o ddr trwm gydag un ochr wedi'i chau, sy'n ffitio dros y stanc. Gyda handlenni ar y ddwy ochr, gall un neu ddau berson ei ddefnyddio. Dylech ddefnyddio helmed ddiogelwch wrth daro stanciau bob amser.



Pan fydd y stanc yn ei le, rhowch y goeden yn agos ato ond heb fod y boncyff yn cyffwrdd. Dechreuwch ail-lenwi'r pridd dros y gwreiddiau gan ddefnyddio dim ond y pridd a gloddiwyd o'rtwll. Peidiwch â rhoi unrhyw wrtaith, tail wedi pydru na chompost plannu coed i mewn i'r twll. Gall y deunyddiau hyn gael effaith andwyol wrth i'r goeden geisio sefydlu. Wrth i'r pridd fynd mewn i'r twll plannu, codwch y goeden i fyny ac i lawr unwaith neu ddwy i ysgwyd y pridd o amgylch y gwreiddiau. Pan fydd y system wreiddiau wedi'i gorchuddio'n llwyr, defnyddiwch sawdl eich esgid i wasgu'r pridd i'w le,

Nesaf, rhowch gard cwingod plastig troellog o amgylch gwaelod coesyn y goeden. Gallwch ddefnyddio rhwydi weiar yn ei le, ond mae'n hanfodol eich bod yn gwarchod y coed ar unwaith ar ôl plannu. Bydd yn rhy hwyr y diwrnod canlynol!

Yna, clymwch y goeden i'r stanc gan ddefnyddio rhwymyn arbennig a gwahanydd. Gallwch ddefnyddio rhwymynnau eraill, ond ym mhob achos, dylid cael bwllch o leiaf un centimetr rhwng boncyff y goeden a'r stanc.

Taflen Wybodaeth Glasu / Glasu Information Sheet – Rhif 3 / No. 3 PLANNU A STANCIO / PLANTING AND STAKING

Ar ôl plannu, rhwch y dywarchen yn ôl o amgylch gwaelod y goeden, gyda'r borfa i lawr. Bydd hyn yn helpu i atal chwyn ac yn fath o domwellt (mulch). Yn dilyn treialon helaeth gan y Comisiwn Coedwigaeth, profwyd mai'r ffordd orau i sefydlu coed yw cadw ardal o thua 1 medr sgwâr yn glir o unrhyw lystyfiant arall am ryw 5 mlynedd. Mae hyn yn bwysicach nag ychwanegu unrhyw wrtaith neu gompost i'r twll plannu.

Nid oes angen rhoi dŵr i goed ffrwythau sydd newydd eu plannu os ydych chi'n plannu rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth. Bydd tomwellt o dail wedi pydru'n dda, compost neu 'mulch mat' yn ddefnyddiol o gwmpas bonion y goeden. Bydd hyn yn helpu i gadw'r pridd yn llaith yn ystod y misoedd cyntaf ar ôl plannu.

Ôl-ofal

Os ceir gwanwyn sych a gwyntog ar ôl plannu, efallai y bydd angen dyfrio gwreiddiau'r coed. Chwiliwch am arwyddion o straen trwy edrych ar flagur newydd. Os ydynt yn hongian, mae hyn yn arwydd o ddiffyg dŵr. Wrth ddyfrio, rhwch sawl galwyn i bob coeden. Os yw'r dyfrio wedi bod yn llwyddiant, dylai'r blagur newydd sythu.

Dylech daro golwg rheolaidd dros y coed rhag unrhyw ddifrod neu arwydd o glefyd neu blâu. Wrth i'r boncyffion chwyddo, gall y rhwymynnau ddifrodi'r coed. Edrychwch ar y coed, y gardiau a'r rhwymynnau bob tri mis o leiaf. Os yw'r rhwymynnau'n dynn iawn, dylech eu llacio. Newidiwch unrhyw rai sydd wedi torri. Gwnewch yn siŵr nad oes cwningod wedi difrodi bonion y coed, gan sicrhau nad yw'r gardiau'n torri i'r boncyffion sy'n chwyddo. Peidiwch byth â defnyddio strimiwr o gwmpas bonion y coed onid oes gan y peiriant gard coed.

Dylech gadw'r stanciau ar y coed am ryw 5 mlynedd. Mae'n bosibl y bydd coed ar goedgyffion corrach (e.e. afalau ar M27, M26 ac M9 ac eirin ar Pixie) angen y stanciau am oes.